*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **20 Mawrth 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Richard Fairhead** |
| Pwnc | **Trosolwg o'r Adolygiad Darpariaeth Frys** |

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Cynhaliwyd gweithgor ar gyfer Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar 14 Mawrth 2023. Yn ystod y cyfarfod hwn, rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Richard Fairhead ac ORH. Roedd hyn er mwyn cyflwyno pwrpas cynnal Adolygiad o Ddarpariaeth Frys a'r fethodoleg i'w defnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Gweithgor.

## ARGYMHELLIAD

2 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

## CEFNDIR

3 Yn asesiad sefyllfa'r Prif Swyddog Tân a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 20 Medi 2021, amlygwyd nifer o risgiau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. I grynhoi, roedd y rhain yn gysylltiedig â sicrhau bod digon o griwiau tân ar alwad ar gael; sicrhau adnoddau digonol i gynnal a datblygu sgiliau diffoddwyr tân; a chael digon o gapasiti corfforaethol i fodloni'r galw presennol ac yn y dyfodol.

4 Mewn ymateb i'r papur hwn, cytunodd yr Awdurdod i ofyn i'r Prif Swyddog Tân gychwyn rhaglen o adolygiadau i feysydd allweddol hollbwysig, yn arbennig argaeledd criwiau ar alwad, hyfforddiant, capasiti corfforaethol, a darpariaeth ymateb brys.

5 Cytunwyd hefyd, yn y lle cyntaf, y dylai cost cwmpasu a chynllunio'r adolygiadau hyn gael ei thalu o'r cronfeydd wrth gefn.

6 Yn ogystal; Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o "Cydnerthedd Corfforaethol yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru" ym mis Ebrill 2021 a gwnaeth y Cynigion canlynol ar gyfer gwella – "I gefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd i nodi cyfleoedd i optimeiddio trefniadau ymateb brys."

**GWYBODAETH**

7 Fel gwasanaeth ar alwad (wrth gefn) yn bennaf, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn dibynnu'n ddirfawr ar gael digon o ddiffoddwyr tân ar alwad i griwio peiriannau tân drwy'r dydd a'r nos. Dim ond wyth o bedwar deg pedwar o orsafoedd tân y Gwasanaeth sydd â chriwiau amser cyflawn, felly mae dros 80% o beiriannau tân y Gwasanaeth yn cael eu criwio gan ddiffoddwyr tân ar alwad.

8 Fel y gŵyr Aelodau, mae llawer o heriau a gwendidau yn gysylltiedig â'r system dyletswydd ar alwad (wrth gefn) yn genedlaethol, yn bennaf o ran recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar alwad, gan arwain at straen parhaus ar y Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r diffyg.

9 Yn 2016, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, ystyriodd yr Awdurdod sut yr oedd am ail-gydbwyso adnoddau i gyfateb â risg, a mabwysiadodd fodel a oedd yn cynnwys sicrhau y byddai lleiafswm o 20 o griwiau tân mewn lleoliadau strategol ar gael yng Ngogledd Cymru.

10 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gynnal y model lleiafswm o 20 o griwiau tân drwy ganolbwyntio ar 20 o leoliadau allweddol er mwyn cynyddu capasiti'r gwasanaeth tân ar draws Gogledd Cymru. Trwy ffyrdd gwahanol, mae 20 o beiriannau tân yn cael eu criwio o fewn y lleoliadau hynny bron bob dydd ond mae'n dod yn fwyfwy anodd gwneud hynny. Yn 2023/24 bydd y Gwasanaeth yn treialu targed o 18 o beiriannu tân mewn ymateb i'r gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn i ddod.

11 Wrth wynebu digwyddiad brys o unrhyw bwys, yn y gorffennol bu'n rhaid i'r Gwasanaeth wneud cais am ddarpariaeth brys gan Wasanaeth cyfagos yn Lloegr. Mae hyn yn peri pryder arbennig ac mae'n gwaethygu pan fydd llawer o amser ymateb brys y Gwasanaeth yn cael ei gymryd i ymateb i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r tywydd. Gydag effeithiau newid hinsawdd, mae'r effaith ar y Gwasanaeth yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod wrth iddo gael ei alw i ddigwyddiadau'n amlach a rhai mwy hirfaith fel tanau mawr yn yr awyr agored a llifogydd eang.

12 Mae'n ddoeth felly i'r Awdurdod gomisiynu gwaith i ddatblygu cynnig darpariaeth ymateb brys tymor canolig er mwyn cynhyrchu opsiynau i'r Awdurdod o ran y ffordd orau o sicrhau gwasanaeth tân ac achub mwy cynaliadwy ar draws Gogledd Cymru.

13 Mae cwmni annibynnol ORH wedi'i gomisiynu i weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth i roi opsiynau i'r Aelodau eu hystyried.

14 Bydd opsiynau posibl ar gyfer newid a’u goblygiadau yn cael eu darparu i’r gweithgor Aelodau nesaf ar 04 Ebrill 2023.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Rhaid i unrhyw opsiynau fodloni rhwymedigaethau’r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| **Cyllideb** | Dim goblygiadau cyllidebol ar hyn o bryd, fodd bynnag bydd gan unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth Argyfwng oblygiadau ar gyfer cyllidebau cyfalaf a gweithredol yn y dyfodol. |
| **Cyfreithiol** | Rhaid i unrhyw opsiynau fodloni rhwymedigaethau’r Awdurdod o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. |
| **Staffio** | Dim effaith hysbys ar lefelau staffio. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Bydd effaith yr agweddau hyn yn cael ei hasesu ar yr adeg briodol yn natblygiad y cynigion ar gyfer darpariaeth frys. |
| **Risgiau** | Lleihau'r risgiau o fethu â phennu cyllideb gytbwys a chynllunio'n briodol yn y dyfodol. |